# CEFFYLAU, CŴN A CHOLOMENNOD



Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym mis Awst 1914 roedd gan Brydain a'r Almaen gafalri o oddeutu 100,000 o ddynion yr un. Rhwng y ddwy wlad golygai hynny 200,000 o geffylau.Fodd bynnag, ymosodiad y cafalri ger Mons y flwyddyn honno oedd yr olaf yn y rhyfel gan fod yr ymladd yn y ffosydd erbyn hynny.

Er hynny, parhawyd i ddefnyddio ceffylau i gario nwyddau i faes y gad. Roeddent yn llawer mwy dibynadwy na cherbydau'r cyfnod ac yn rhatach i'w cadw. Bu farw 8 miliwn o geffylau. Cafodd dwy filiwn a hanner eu trin mewn ysbytai milfeddygol gyda tua dwy filiwn o'r rheiny'n dychwelyd i wneud eu gwaith.

Dywedodd un milwr am geffyl o'r enw Sailor, 'Byddai'n gweithio am 24 awr y dydd heb gwyno ac edrychai fel pe bai'n bwyta gwellt ei wely. Roedd mor dawel â llygoden fach ond yn fwy o ben na sawl dyn! Pan fu farw rhoddodd pob aelod o'r artillery gusan iddo ac roedd y gyrwyr oedd yn ei fwydo ar fin crio.'

Chwaraeai cŵn ran allweddol yn y Rhyfel Byd Cyntaf fel negeswyr. Oherwydd cymhlethdod y ffosydd roedd cyfathrebu yn anodd a phosibilrwydd cryf na fyddai neges yn cyrraedd pen ei thaith. Byddai'n eithriadol o anodd i ddynion gario negeseuon – yn rhannol oherwydd eu gwisgoedd trymion ond yn bennaf am y byddent yn cael eu saethu.Roedd cerbydau yn broblem hefyd am eu bod yn torri i lawr a'r ffyrdd yn ddim ond llwybrau mwdlyd.

Sefydlwyd ysgol i hyfforddi cŵn yn yr Alban a theithiodd un ci a hyfforddwyd yno dros 4,000 metr mewn llai nag awr gyda neges bwysig i'r pencadlys wedi i bob dull arall fethu.

Tasg arall a wnai'r cŵn ar Ffrynt y Gorllewin oedd cadw cwmni i'r milwyr oedd yn gaeth am oriau yn y ffosydd. Roeddent yn atgoffa'r milwyr o gysuron cartref. Dywedir bod gan Hitler gi gydag ef yn ffosydd yr Almaenwyr.

Byddai colomennod yn cario negeseuon hefyd. Defnyddiwyd y nifer anhygoel o 100,000 ohonynt yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r raddfa llwyddiant yn 95%. Roeddent yn cael eu hystyried mor werthfawr fel bod cosb o £100 neu 6 mis o garchar i unrhyw un oedd yn cael ei ddal yn lladd, anafu neu saethu colomennod. Câi unrhyw un allai roi gwybodaeth am dorri'r gyfraith ynglŷn â cholomennod wobr o £5.

Roedd gallu'r colomennod yn hanfodol i'r rhai oedd yn eu defnyddio fel negeswyr. Gan eu bod yn hedfan mor gyflym roedd yn anodd eu saethu, ond y rhyfeddod mwyaf oedd eu gallu i ddarganfod eu cartref.

Ym mis Hydref 1918, roedd 194 o filwyr America wedi cael eu cornelu gan filwyr yr Almaen a doedd gan yr un ohonynt radio oedd yn gweithio. Yr unig obaith oedd anfon colomen gyda manylion amdanynt ynghlwm wrth ei choes. Cymerodd 25 munud iddi hedfan 25 milltir i bencadlys yr Americanwyr – ond nid dyna'r un agosaf! Achubwyd y milwyr a chafodd y golomen wobr Croix de Guerre.